


Canllawiau i Ymgeiswyr

Clybiau / Grwpiau Chwaraeon



Mae Cronfa Gymunedol Fferm Wynt Pen y Cymoedd yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi'r cyfraniadau cymunedol ac iechyd a llesiant eang eu natur a wneir gan clybiau a grwpiau chwaraeon o bob math. Gellir ystyried ceisiadau ar gyfer prosiectau, gweithgareddau ac offer sy'n cefnogi cyfranogiad ar gyfer dyfarniadau Grantiau Bychain neu Weledigaeth.

Mae angen i glybiau ddangos:

1. eu bod yn perthyn i'w corff llywodraethu (os oes yna un) ac esbonio sut maent yn gweithio gyda'r corff llywodraethu hwnnw.
2. eu bod yn cydymffurfio ag unrhyw feini prawf mewn perthynas â nifer yr aelodau (e.e. timau, nifer yr hyfforddwyr sydd â chymwysterau priodol, swyddogion cymorth cyntaf a dyfarnwyr), cyfleusterau, cyllid, gweinyddu a chydymffurfio cyffredinol.
3. bod eu cais yn cael ei gefnogi gan eu corff llywodraethu (os oes yna un).
Os oes gan y clwb gynllun datblygu hirdymor a Chynllun Cyfleusterau a gytunwyd gyda'i gorff llywodraethu, dylai'r cais ddangos sut mae'r hyn a gynigir yn helpu i gyflawni'r Cynllun hwnnw.
4. bod y prosiect arfaethedig yn rhan o gynllun datblygu cytunedig y Clwb ei hun os nad oes Cynllun Cyfleusterau ar waith.
5. bod ganddynt bolisiau ac arfer Cyfle Cyfartal clir – dylai unrhyw un sy'n dymuno cymryd rhan mewn prosiect neu weithgaredd a ariennir gael eu croesawu i wneud hynny oni bai bod rhesymau da pam nad yw hyn yn bosibl.
*Rydym yn annog Clybiau i fod yn gynhwysol a dylai eu dogfennau a'u polisiau llywodraethu wneud hyn yn glir. Gallwch weld Polisi Cyfle Cyfartal y Gronfa **yma**.*
6. eu bod wedi gofyn am gyngor arbenigol pan fo angen.
7. bydd y gweithgaredd neu'r prosiect a ariennir yn dod â budd ychwanegol i'r clwb a'i aelodau.
8. mae yswiriant a chaniatâd perthnasol yn eu lle.
9. mae Polisi Diogelu clir a gweithdrefn ategol yn ei le - wedi'i lofnodi, ei ddyddio, gyda swyddog diogelu penodol a enwyd, yn cael ei ddiweddarau'n rheolaidd a'i weld gan holl aelodau'r clwb.

DS: nid yw cydymffurfio â'r nodyn canllaw hwn yn gwarantu y bydd y cais yn llwyddiannus – arwydd ydyw yn unig o rai elfennau o'n proses asesu a'n meini prawf.